# CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER 14 MAI 2014 AM 7.00 O'R GLOCH YN NEUADD YR YSGOL**

**YN BRESENNOL**
Cyng I Roberts JP, K Humphreys, R G Parry, C Ll Thomas, A Michael, S Parry, E Huws, I Rowlands, D Rees (Cyngor Sir)

**YMDDIHEURIADAU**
Cyng N Highley

Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts JP. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb.

**DATGAN DIDDORDEB** - Cyng D Rees (Iorwerth Arms), Cyng R G Parry (eitem16C199 cynllunio)

**DERBYN COFNODION Y CYFARFOD 16 Ebrill 2014**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 16 Ebrill 2014, Cyng A Michael yn cynnig a Cyng S Parry yn eilio.

**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
**Llwybr Cyhoeddus Lon Bryngwran Ffarm - Pen Rhiw** - Mae y Clerc wedi trefnu i'r Cyngor Sir cysylltu a Cyng A Michael
**Ganmlwyddiant y Rhyfel Mawr** - Mae y Cadeirydd a'r Clerc yn disgwyl am prisiau ar gyfer y gwaith.
**Twnneli Helyg** - Mae y Cyngor wedi derbyn grant am £1000. Dywedodd y Clerc bod swyddog Coed Cymru wedi dweud bydd rhaid disgwyl tan Tachwedd - Chwefror i weithio gyda helyg
**Iorwerth Arms** - Bydd y cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal 16 Mai.
**Sedd Wag** - Nid yw'r Clerc wedi derbyn unrhyw geisiadau
**Plaque Eisteddfod Mon** - mewn llaw
**Cysgodfannau Bws** - Bydd y Cadeirydd yn trenu cael paent a brwsiai. Bydd y cost drost £100. Penderfynwyd cynnig taliad £100 i'r Cadeirydd. Bydd y gweddill o'r costau yn cael ei talu ar ol derbyn yr anfoneb.
**Y Carreg Filltir** - Mae'r cadeirydd yn disgwyl pris am y gwaith

**ADRODDIAD Y CADEIRYDD**- Soniodd y cadeirydd am yr hen swing yn y maes chwarae. Cynigodd Cyng Rowlands symud y swing.

LLOFNOD (Cadeirydd) 11 Mehefin 2014

**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
**Cynllunio**
16C60C cais llawn ar gyfer codi estyniad llawr cyntaf yn Llain Siriol, Lon Ty Hen, Bryngwran - dim sylwadau
16C199 Cais llawn ar gyfer newid defnydd y Swyddfa Post (dosbarth defnydd A1) i annedd (dosbarth defnydd C3) yn Post Office, 38 High St, Bryngwran - dim sylwadau
**Dirprwy Prif Weithredwraig**
Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad - Mae y Cyngor Sir yn cynnig hyfforddiant ar 29 neu 30 Hydref 2014.

**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**

**MATERION ARIANNOL**

**MATERION ERAILL**
Yn dilyn cais am 20 myh wrth ymyl yr ysgol, bydd Cyng R G Parry yn cyflwyno cais i'r Cyngor Sir, hefyd i gynnwys Lon Salem a rampiau yn Lon Salem.
Yn dilyn cwynion am baw cwn a palmentydd ddim yn cael eu glanhau yn y pentref bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir.

LLOFNOD (Cadeirydd) 11 Mehefin 2014